The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010069 |
| **Prosiect** | Prosiect Pŵer Abergelli |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Ewa Sherman |
| **Dyddiad** | 28 September 2017 |
| **Cyfarfod â** | **Abergelli Power Limited** |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste (Cyfarfod Ffôn) |
| **Yn bresennol** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio**<br>Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith<br>Tracey Williams – Rheolwr Achos<br>Ewa Sherman – Swyddog Achos<br>Emma Cottam – Cynghorydd AEA a Hawliau Tîr<br>**Abergelli Power Limited**<br>Chris McKerrow<br>Colette King<br>Grant Young<br>Dermot Scanlon |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfo diweddaru prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd:**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Cyflwynodd yr Ymgeisydd a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Amlinellwyd polisi bod yn agored yr Arolygiaeth a sicrhawyd bod pawb a oedd yn bresennol yn deall y byddai unrhyw faterion a drafodir ac unrhyw gyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ar ben hynny, gwnaed yn glir na fyddai unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r Ymgeisydd (neu eraill) ddibynnu arno.

**Y diweddaraf am y prosiect**

Rhoddodd yr Ymgeisydd y newyddion diweddaraf mewn perthynas â llinellau amser y prosiect a'r rhaglen, a chadarnhawyd y cynhelir ymgynghoriad statudol yn ystod Ch1 2018, i'w ddilyn gan gyflwyniad cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu yn ystod Ch2 2018. Esboniodd yr Ymgeisydd fod dyddiad y rhaglen a'r dyddiad cyflwyno'n

dibynnu ar yr arwerthiant marchnad capasiti nesaf fydd ar gael ac felly byddant yn adolygu 'gwersi a ddysgwyd' o'r cam cyn ymgeisio ac yn adolygu'r dogfennau cais drafft ar gyfer prosiect Millbrook Power a fydd i'w gyflwyno nifer o fisoedd yn gynharach, cyn Abergelli.

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu bod mor gyson â phosibl o ran y dull a ddefnyddir ar gyfer prosiect Millbrook Power wrth baratoi ar gyfer cyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Abergelli.

O ran y rhaglen ôl-gyflwyno, cadarnhaodd yr Arolygiaeth, er bod llinellau amser wedi'u pennu (ac eithrio'r cam cyn archwilio), bod y cam cyn ymgeisio yn natblygiad y prosiect yn hanfodol er mwyn i'r broses redeg yn esmwyth. Bydd yn hanfodol i'r Ymgeisydd gynnal ymgynghoriad effeithiol ac i'r cais fod yn addas i'r diben.

Cynghorodd yr Ymgeisydd fod trafodaethau â thirfeddianwyr yn parhau, gydag union ffin linell goch y prosiect heb ei chadarnhau hyd yn hyn. Mae arolygon amgylcheddol yn parhau hefyd, gyda'r wybodaeth a ddaw o'r rhain yn cael ei bwydo i'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol. Yn ogystal, mae'r Ymgeisydd yn paratoi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft, y maent yn bwriadu ei gyflwyno i'r Arolygiaeth i'w adolygu yn gynnar yn 2018.

O ran ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol, awgrymodd yr Arolygiaeth y dylai'r Ymgeisydd gadw cofnod o bob gohebiaeth. Hefyd, cynghorodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd greu fframwaith o faterion allweddol a chanolbwyntio ar ddod i gytundeb ar y rhain, gan weithio gydag ymgyngoreion statudol i ddrafftio Datganiadau Tir Cyffredin, gan nodi meysydd o dir nad yw'n gyffredin hefyd.

Gofynnodd yr Arolygiaeth am gael derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori, gan gynnwys adborth a materion sy'n codi yn y digwyddiadau hyn.

Cynghorodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd gynnwys amser yn eu rhaglen i ganiatáu adolygiad llawn o'r dogfennau drafft. Fel arfer, mae adolygiad llawn gan yr Arolygiaeth o gyfres o ddogfennau drafft yn cymryd tua 4 wythnos, gyda chyfarfod ffurfiol i ddilyn. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar nifer y dogfennau a'r materion penodol sy'n codi. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd eu bwriad i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar ddechrau Ch2 yn 2018.

**Cynllun Iaith Gymraeg**

Cynghorodd yr Arolygiaeth fod ganddynt ddyletswydd o dan y Cynllun Iaith Gymraeg mewn perthynas â chyhoeddi dogfennau yn Gymraeg. Nodwyd bod y gwefannau dwyieithog ar gyfer prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd a phrosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru a gynigir wedi'u lansio erbyn hyn.

Cynghorodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd ystyried pa ddogfennau y gallent eu darparu yn Gymraeg. Mae'n bosibl y bydd yr Ymgeisydd yn dymuno ystyried cyfieithu dogfennau ategol megis y Crynodeb Annhechnegol, y Memorandwm Esboniadol, y Datganiad o Resymau a'r Datganiad Cyllid, ac eraill yn ôl yr angen ac yn gymesur â'r prosiect.

Yn ogystal, byddai'n fuddiol pe bai unrhyw wybodaeth am ddarparu dogfennau wedi'u cyfieithu yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori i ddangos sut mae'r materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael sylw yn ystod yr

ymgynghoriad statudol. Hefyd, cynghorwyd yr Ymgeisydd i hysbysu’r Arolygiaeth ynghylch pa ddogfennau y maent wedi neu y maent yn bwriadu eu cyfieithu i’r Gymraeg.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Bydd yr Ymgeisydd yn darparu rhaglen fanwl i’r Arolygiaeth ar gyfer cyflwyno’r cais.

Trefnir y delegynhadledd nesaf ym mis Rhagfyr 2017 cyn y bydd ymgynghoriad statudol yr Ymgeisydd yn dechrau.